**COFNODION DRAFFT y Grŵp Trawsbleidiol ar BLANT a PHLANT SY'N DERBYN GOFAL**
**Effaith Diwygio Lles yng Nghymru**
12 Chwefror 2014
12.15 - 13.25
Ystafell Briffio'r Cyfryngau
Noddwyd gan Julie Morgan AC

**AGENDA**
**Cadeirydd: Julie Morgan AC**
**12.15-12.20:** Croeso a chyflwyniadau: Julie Morgan AC
**12.20-12.40:** Cyflwyniad gan Fran Target, Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru
**12.40-13.00**: Cyflwyniad gan y Dr Liz Jones, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru
**13.00-13.25:** Trafodaeth
**13.25:** Cloi

**TRAFODION**

- Agorwyd y cyfarfod gan Julie Morgan AC.

- Diolchodd Julie Morgan i bawb am ddod i'r cyfarfod, a chyflwynodd Fran Target, Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru.

- Trafododd Fran Target ddau brif fater, sef y math o newidiadau i daliadau lles penodol, a newidiadau i'r modd y mae'r budd-daliadau bellach yn cael eu gweinyddu.

- Y budd-daliadau penodol a drafodwyd: Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (y gyfradd fwyaf o ymholiadau), cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor, y cap ar Fudd-daliadau Tai, y Credyd Cynhwysol, y Gronfa Gymdeithasol.

- Pryderon ynghylch y newidiadau i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu:

    - Bellach, un taliad yw'r Credyd Cynhwysol ac mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i lawer o bobl gyllidebu/gweinyddu.

    - Bellach, mae'r Budd-dal Tai yn rhan o'r Credyd Cynhwysol - dim incwm ar wahân ar gyfer mamau. Roedd pryder ynghylch y cysylltiad rhwng anawsterau ariannol a thrais domestig.

    - Digidol yw'r unig opsiwn - nid yw 90% o'r cleientiaid sy'n symud i Gredyd Cynhwysol mewn sefyllfa i reoli hynny'n ddigidol.

    - Os nad oes cysylltiad â'r we gartref, mae pryderon ynghylch diogelwch y rhyngrwyd.

- Teuluoedd fydd y rhai a fydd fwyaf ar eu colled o dan y trefniadau i ddiwygio lles. Yn ôl ffigurau'r Trysorlys, bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar y bobl dlotaf.

- Cyflwynodd Julie Morgan y Dr Liz Jones, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

- Trafododd Liz Jones ei hymchwil mewn perthynas â'r materion allweddol a nodwyd gan deuluoedd yng Nghymru o ran tlodi, yn enwedig effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

    - Mae effaith yr economi ar y cyfleoedd yn y farchnad lafur a lefelau cyflog yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Ar yr un pryd, mae Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r newidiadau mwyaf ers 60 mlynedd i'r budd-daliadau lles.

    - Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gyhoeddwyd yn 2010 yn arbed dros £18 biliwn erbyn 2014-15; yn 2012 cyhoeddwyd toriadau ychwanegol o £3.7 biliwn erbyn 2015-16.

    - Mae'r diwygiadau lles yn effeithio'n galed iawn ar deuluoedd sydd â phlant dibynnol. Ceir y colledion cyfartalog mwyaf mewn teuluoedd ag incwm isel a chanolig, a theuluoedd nad ydynt yn gweithio sydd â phlant.

    - Mae Plant yng Nghymru yn treialu prosiect ymchwil sy'n ymchwilio i'r materion allweddol a grybwyllir gan deuluoedd yng Nghymru mewn perthynas â thlodi. Cynhelir cyfweliadau ag Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a gweithwyr achos etholaethol ledled Cymru.

    - Dengys y canfyddiadau cychwynnol bod y newidiadau'n effeithio ar famau sengl (yn enwedig yn ardal Caerdydd), bod cynnydd yn yr ôl-ddyledion rhent, bod cynnydd yn y galw am stampiau banciau bwyd, a bod anawsterau yn deillio o'r 'dreth ystafell wely'.

    - Mae'r cyfweliadau'n dal i gael eu cynnal a bydd y canfyddiadau allweddol yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Trawsbleidiol, Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad, ac aelodau Plant yng Nghymru.

- Trafodaeth:
    - Yr effaith ar blant sy'n gadael gofal
    - Mae angen rhannu'r arferion gorau ar draws awdurdodau lleol.
    - Y problemau â thaliadau trosiannol
    - Pryderon ynghylch normaleiddio banciau bwyd a bod prinder yn dod yn fater o drefn. Digon o incwm sydd ei angen.

- Daeth Julie Morgan AC â'r cyfarfod i ben.

DRAFFT